**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/VG/2581/19

Hefin David AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

9 Gorffennaf 2019

Annwyl Hefin,

Wrth ymateb i'ch Cwestiwn Cynulliad am argaeledd cyffuriau fferyllol dros y cownter (OAQ53150), dywedais y rhoddwn ddiweddariad i chi am ganlyniadau'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd o'i herwydd.

Derbyniodd yr ymgynghoriad am ganllawiau drafft i'r GIG o ran sefyllfaoedd lle na ddylid rhagnodi meddyginiaethau dros y cownter (OTC) fel rheol mewn gofal sylfaenol nifer heb ei hail o ymatebion. Trafodwyd y canllawiau drafft a'r ymatebion i'r ymgynghoriad mewn cyfarfod o'r Grŵp Ymgynghorol Rhagnodi Cymru Gyfan (AWPAG) ym mis Mawrth. Oherwydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad, argymhellodd AWPAG i AWMSG na ddylid bwrw ymlaen â'r canllawiau drafft. Â dau eithriad, cytunodd AWMSG i beidio â bwrw ymlaen â'r canllawiau drafft yn ei gyfarfod ar 26 Mawrth. Yr eithriadau a gytunwyd ag AWMSG oedd y dylai rhagnodi rhagfiotigau a fitaminau a mwynau gael ei ymgorffori mewn rhan o'i waith am feddyginiaethau a nodir yn rhai â blaenoriaeth isel o ran cyllido yn y GIG yng Nghymru. Nid oes dim cynlluniau i fwrw ymlaen â'r cynigion eraill yn y canllawiau drafft.

Mae penderfynu pa feddyginiaeth i'w rhagnodi yn fater i feddygon teulu a rhagnodwyr eraill sy'n defnyddio eu barn glinigol broffesiynol a seilir ar anghenion clinigol y claf. Bydd yn cynnwys, mewn rhai achosion, ragnodi meddyginiaethau sydd ar gael dros y cownter pan fo tystiolaeth dda bod y feddyginiaeth yn effeithiol yn glinigol.

Yn gywir

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.